



Beth yw person sy'n gadael gofal?

Os gwnaethoch ddechrau eich cwrs ar 1 Awst 2018 neu wedi hynny, gallwch wneud cais am gyllid myfyrwyr fel person sy'n gadael gofal:

- **os ydych wedi bod yng ngofal eich awdurdod lleol neu'ch bod wedi cael llety gan eich awdurdod lleol**
- **os oeddech yn derbyn gofal am o leiaf 13 wythnos**
- **os daeth eich cyfnod mewn gofal i ben ar ôl i chi gael eich pen-blwydd yn 14 oed.**

Os gwnaethoch ddechrau eich cwrs cyn 1 Awst 2018, gallwch wneud cais am gyllid myfyrwyr fel person sy'n gadael gofal:

- **os ydych wedi bod yng ngofal eich awdurdod lleol neu'ch bod wedi cael llety gan eich awdurdod lleol**
- **os oeddech yn derbyn gofal am o leiaf 13 wythnos**
- **os daeth eich cyfnod mewn gofal i ben cyn i chi gael eich pen-blwydd yn 16 oed**
- **os nad ydych wedi cymodi â'ch rhieni ers i chi adael gofal.**

Beth y mae angen i fi ei anfon er mwyn profi fy mod yn berson sy'n gadael gofal?

Gallwch ddarparu tystiolaeth eich bod yn berson sy'n gadael gofal, drwy anfon un o'r canlynol atom:

- llythyr gan eich awdurdod lleol;
- llythyr gan eich gweithiwr achos neu'ch gweithiwr cymdeithasol.

Rhaid bod y llythyr hwnnw'n cadarnhau:

- **eich bod wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol (sy'n cynnwys cael lleoliad mewn gofal maeth gan eich awdurdod lleol)**
- **y dyddiadau pan oeddech yn derbyn gofal**
- **nad ydych wedi dychwelyd i ofal eich rhiant/rhieni cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs.**

Dim ond pan fyddwch yn gwneud cais am y tro cyntaf am gyllid myfyrwyr ar gyfer eich cwrs y bydd yn rhaid i chi anfon tystiolaeth o'ch statws fel person sy'n gadael gofal. Ar gyfer unrhyw un o flynyddoedd diweddarach eich cwrs, byddwch yn cael y Benthyciad Cynhaliaeth mwyaf y mae gennych hawl iddo (os ydych yn dymuno ei gael).





Beth y mae hynny'n ei olygu ar gyfer fy nghais am gyllid myfyrwyr?

Os byddwch yn cael cyllid myfyrwyr fel person sy'n gadael gofal, ni ofynnir i chi ddarparu unrhyw rai o fanylion ariannol eich rhieni. Byddwch yn cael eich asesu fel myfyriwr annibynnol a byddwch yn cael y Benthyciad Cynhaliaeth mwyaf y mae gennych hawl iddo.

Cofiwch y dylech wneud cais am gyllid myfyrwyr cyn gynted ag sy'n bosibl bob amser.

Gall prifysgolion a cholegau hefyd roi cymorth i fyfyrwyr sy'n gadael gofal. Gallwch siarad â chynghorwyr sy'n rhan o dimau Gwasanaethau Myfyrwyr, Lles Myfyrwyr neu'r Undeb Myfyrwyr.

Gallwch hefyd ymweld â'r gwasanaethau canlynol sy'n cynghori pobl sy'n gadael gofal:

- Ymddiriedolaeth Become - www.becomecharity.org.uk
- Brightside - <https://brightside.org.uk>
- Y Rhwydwaith Cenedlaethol dros Addysg Pobl sy'n Gadael Gofal (NNECL) - www.nnecl.org
- Y Gymdeithas ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal - www.careleavers.com

A chofiwch, gall eich Tîm Pobl sy'n Gadael Gofal yn eich awdurdod lleol eich cynorthwyo gyda gwybodaeth am gyllid myfyrwyr a darparu unrhyw gymorth ychwanegol sydd ar gael.

